


Datblygiad cyffrous yn hanes y diwydiant cyhoeddi



Storfa newydd Y Lolfa

‘Ein cyfrifoldeb yw diogelu’r drysorfa lenyddol a’i hatgyfnerthu i’r dyfodol. Dyma ein braint a’n pleser. Fe gadwn y fflam hon ynghŷn yma yng Ngheredigion gyda’n gilydd,’ meddai Glyn Saunders Jones

Papur Pawb

Llacio'r Cyfnod Clo

Yn raddol bach yn ystod y mis bydd mwy a mwy o weithgareddau cyhoeddus yn gallu ailddechrau ar ôl y clo diwethaf ers dechrau'r flwyddyn. Ar ôl wythnosau lawer o ddilyn rheoliadau Covid a chynnal cyfarfodydd ar-lein trwy Zoom neu drwy Dimau Meicrosoft a Skype, gobeithio y daw cyfle i gynnal gweithgareddau wyneb yn wyneb yn ddiogel yn ystod y gwanwyn a'r haf. Gan bwyll bach mae mynd ymhell.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Gwion a Sara, Fferm Tanllan, Llangynfelyn, ar enedigaeth eu merch fach Heidi Grug. Dyma wyres fach gyntaf i Siân a Dei Evans, Fferm Tanllan. Pob dymuniad da i'r teulu bach.

Cydymdeimlad

Trist yw cofnodi marwolaeth Mr Clifford Williamson, un o drigolion hynaf Bont-goch. Cydymdeimlir yn ddiffuant iawn â'i briod a'r teulu yn eu colled.

Swydd Newydd

Dymunwn yn dda i Helena O'Sullivan, Penygro, Bont-goch wrth iddi ymgymryd â swydd newydd gyda'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol ym mis Ebrill.

Croeso

Estynnwn groeso cynnes i deulu newydd sydd wedi ymsefydlu'n ddiweddar yng Nglanrhyd, Bont-goch.

Pen-blwyddi

Pob dymuniad da i Dominic Jenkins, Craigydelyn, Tal-y-bont, a fu'n dathlu pen-blwydd arbennig iawn ddiwedd Mawrth.

Llongyfarchiadau hefyd i Arwel West, White Windows, Tal-y-bont, ar ddathlu pen-blwydd arbennig.

Priodas Ruddem

Llongyfarchiadau i Dilwyn ac Elizabeth James, Cwmudw, Tal-y-bont, ar achlysur dathlu eu priodas ruddem.

Colli Modryb

Estynnir cydymdeimlad i Margaret Jenkins, Tyngraig, Tal-y-bont, ar golli ei modryb, Jennie Davies, o Lanilar.

Dymuniadau gorau

Deallwn fod Mrs Margaret Jones, Nantgaredig, Tal-y-bont, yn cartrefu'n dda yng nghartref preswyl yr Annedd yn Llanybydder. Mae Arwyn ei mab bellach gartref o'r ysbyty ac yn gwella'n ara deg. Ein dymuniadau gorau i'r ddau.

Pobl a Phethe



Niamh O'Donnell y cerddor

Cerddor dawnus

Mae cyfansoddiad cerddorol o waith Niamh O'Donnell, Maesnant, Tal-y-bont wedi ei ddewis gan Tŷ Cerdd, Caerdydd, i gynrychioli Cymru yng nghystadleuaeth *ISCH World Music Days Shanghai a Nanning* fydd yn digwydd yn ystod yr haf eleni.

Y mae Niamh, sy'n gyn-ddisgybl o Ysgol Tal-y-bont a Phenweddig, yn fyfyrwraig drydedd flwyddyn yn y Coleg Cerdd a Drama yng Nghaerdydd lle mae'n astudio cyfansoddi ac yn archwilio cerddoriaeth nodiant ac electroacwstig. Llongyfarchiadau iti Niamh a phob dymuniad da yn y gystadleuaeth ryngwladol.

Bardd y Mis ar Radio Cymru

Gwenallt Ifan, Llys Alaw, Tal-y-bont, yw bardd y mis ar Radio Cymru yn Ebrill. Cafwyd cyfweiliad byr ag ef ar wefan Cymru Fyw. Cyfeiriwyd yn benodol at ei ddiddordeb mawr mewn pysgota, ffaith sy'n wybyddus i amryw o'i gyd-bysgotwyr yn Nhal-y-bont, wrth gwrs. Bydd cyfrol gyntaf o gerddi Gwenallt yn cael ei chyhoeddi gan Gyhoeddiadau Barddas yn ystod y mis, a'i theitl yw *DNA*.

Bethel yn Ailagor

Gyda'r cyfyngiadau Covid yn cael eu llacio yn raddol daeth cyfle i gynnal oedfaon byw unwaith eto yng nghapel Bethel. Cynhelir yr oedfa gyntaf fore Sul 11 Ebrill pan fydd ein gweinidog newydd, Gwilym Tudur, yn gweinyddu'r Cymun am y tro cyntaf ers dros flwyddyn. Darperir bara a gwin Cymun mewn dull diogel mewn pecynnau wedi eu selio.

Yna, fore Sul 25 Ebrill bydd Geraint Evans yn arwain y gwasanaeth ac yn cyflwyno ei fyfyrdd misol. Bydd Gwilym yn dychwelyd fore Sul 9 Mai pan gynhelir oedfa Gymun unwaith eto. Yn y cyfamser gellir dilyn oedfaon Seion Stryd y Popty, Aberystwyth ar Zoom, gan gynnwys oedfa Gymun fore Sul y Pasg pan fydd modd i bawb ddarparu eu helfennau eu hunain a dilyn yr oedfa o adref. Edrychwn ymlaen at dderbyn cefnogaeth yr aelodau yn y gwasanaethau hyn.

Rhian

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612
07835 525 553

'SUEZ CRISIS' PENTREBACH



Y lori a aeth yn sownd yn y ffos.

Tra bu'r llong enfawr 220,000 t yn sownd ar draws Camlas Suez yn yr Aifft digwyddodd y ferf peth ychydig ymhellach lan y lôn ger Pentrebach. Aeth lori 44 t, a'r lori drymaff ganiateir ar ffyrdd Prydain, yn sownd ar draws y ffordd wrth iddi fethu â dringo'r rhiw ar ei ffordd i Henllys yn llawn o 'fara wedi ei brosesu'. Dywedodd y gyrrwr, a oedd wedi teithio o Fryste, iddo golli momentwm, wedi gorfod stopio ac wedi methu ailgychwyn. O ganlyniad llithrodd am yn ôl yn ddwfn i mewn i'r ffos, a methu dianc oddi yno heb gymorth. Er i dractor Henllys wneud ymdrech arwrol i'w symud hi doedd dim yn tycio a bu rhaid ffonio am gymorth a ddaeth bedair awr yn ddiweddarach o'r Drenewydd. Roedd y pedair awr yna'n ddigon i lori Mansel, hefyd ar ei ffordd i Henllys, a'r lori ludw ar ei thaith wythnosol, orfod criplan yn ofalus iawn yn ôl lawr y lôn heibio'r ceir tu allan i dai Pentebach cyn troi a dychwelyd i Dre Taliesin. Cymerodd yr achubwr o'r Drenewydd, 20 t yn unig, lai na hanner awr i achub 'y bara' gyda winsh a chael y lori ar ei ffordd unwaith yn rhagor.

Bu rhyddhau y llong yn Suez yn fwy o drafferth!
RhH

James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Ysgol Tal-y-bont

Gyda'r arfer o gadw llyfr lög wedi dod i ben ers rhai blynnyddoedd bellach, dwi'n siŵr y bydd adroddiadau'r ysgol i Bapur Pawb yn gofnod pwysig wrth gloriannu hanes y misoedd diwethaf. Wrth edrych yn ôl i fis Mawrth diwethaf, mae hi bron yn amhosib dirnad beth yn union sydd wedi digwydd. Buom mewn cyfnodau clo llym, cyfnodau clo dros gyfnod byr a chyfnodau hefyd o fod yn yr ysgol. Mae'r plant wedi gorfod addasu'n gyflym i weithio gartref gyda'r athrawon yn dysgu o bell gan ddefnyddio'r dechnoleg fodern, ac i fod yn ôl yn yr ysgol ond o dan reolau llym o lanweithdra a gwisgo mwgwd, cadw pellter cymdeithasol ac aros mewn 'swigod' fesul dosbarth.

Ond daeth llygedyn o obaith am ddyfodol gwell gyda chroesawu plant hynaf yr ysgol yn ôl yn ystod mis Mawrth. Ac er ein bod yn parhau i fod yn hynod ofalus, roedd hi'n deimlad braf cael pawb yn ôl at ei gilydd.

Diwrnod Comic Relief

Roedd cael ymuno yn hwyl y diwrnod yma'n bwysig iawn i'r ysgol eleni ynghanol y cyffro o ddod yn ôl i'r ysgol. Penderfyniad y plant y tro hwn oedd gwisgo dillad coch a chreu gwalltiau gwirion. Roedd hi'n hyfryd gweld y plant yn gwenu wrth gael hwyl a dysgu am yr elusen bwysig yma ar yr un pryd.

Arad Goch

Fel arfer, mae croesawu Cwmni Theatr Arad Goch i Ysgol Tal-y-bont yn dipyn o uchafbwynt mewn blwyddyn arferol. Yn arferol byddai'r cwmni wedi bod yn teithio o amgylch ysgolion yn cyflwyno dramâu a chynnal gweithdai. Ond eleni, bu'n rhaid bodloni ar weld y perfformiad a chynnal y gweithdy dros y We ac o fewn yr ystafell ddosbarth! Roedd 'Nid Fi' yn ddrama rymus am fwllian ac roedd yn codi llawer o gwestiynau am y gwahanol fathau o fwllian y mae plant yn gallu ei ddioddef. Diolch yn fawr am fod yn rhan o'r cynhyrchiad ac am y sgwrs a ddilynodd.

Masnach Deg

Diolch yn fawr i Mrs Nelmes am drefnu gweithgareddau i gyd-fynd gyda chodi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd prynu bwydydd Masnach Deg i helpu ffermwyr mewn gwledydd eraill ar draws y byd. Diolch yn fawr am rannu'r siocled hefyd – roedd y plant yn haeddu trêt bach!

Darllenwyr Prysyr



Yn hollol annisgwyl, cafwyd galwad ffôn gan aelod o staff archfarchnad Morrisons yn ystod y mis yn cynnig llyfrau am ddim i'r ysgol! Fel y gwelwch, fe gafodd y llyfrau dderbyniad gwresog gan y plant. Diolch yn fawr am yr anrheg hael.

Llund bol o sglodion

Llongyfarchiadau i Bleddyn Lewis am ennill cystadleuaeth yn siop sglodion Machynlleth. Ei wobr oedd ennill sawl pryd sglodion am ddim. Paid â bwyta'r cyfan i gyd ar unwaith, Bleddyn!

Cerdded can milltir

Llongyfarchiadau i Hopcyn a Martha am gerdded 100 milltir ystod mis Mawrth i godi arian i fudiad WWF. Da iawn chi.

PC Hannah



Mae gan yr ysgol gysylltiad cryf iawn gyda'r heddlu ac yn ystod y mis cafodd y plant hynaf ymwelydd arbennig, sef P.C. Hannah. Ond yn anffodus, ymweliad rhithiol oedd hwn unwaith eto. Diolch yn fawr i P.C. Hannah am gadw cysylltiad efo'r ysgol ac am y cynghorion doeth. Rydym yn croesi bysedd y gallwn ei chroesawu i'r ysgol ar gyfer yr ymweliad nesaf!

Tyfu Dyfi



Fe gafodd pob plentyn anrheg hyfryd ar ddiwedd y tymor, sef pecyn o hadau amrywiol i'w plannu yn yr ardd gartref. Roedd y pecyn yn gyfuniad o hadau llysiau a blodau a gobeithio y gallwn weld lluniau o'r cynnyrch dros yr wythnosau nesaf. Diolch yn fawr i griw Tyfu Dyfi am sicrhau fod y pecynnau wedi ein cyrraedd a phob hwyl i bawb gyda'r tyfu. Efallai y bydd gan Mrs Jones y

gegin ddiddordeb mewn coginio'r llysiau yn yr ysgol cyn diwedd yr haf!



Dathlu'r Pasg



Cletwr

CYLLID IEUENCTID

08/04/2021 - 13.30 - 15.00

13/04/2021 - 18.30 - 20.00

Zoom: <http://bit.ly/3l3qrnt> +
<http://bit.ly/30vNqhx>

 NatWest Group

Talitha ar flaen y gad yn y frwydr yn erbyn Covid-19



Talitha (Taz) Ebenezer

Mae merch a fagwyd yn lleol ar flaen y gad yn yr ymdrech i frechu rhag Covid yn un o ymddiriedolaethau iechyd Llundain. Cafodd Talitha Ebenezer (Taz), sy'n ferch i Nigel Ebenezer ac yn nith i Mark a Lynn Ebenezer, Tal-y-bont, ei magu yn y pentref cyn i'w theulu symud i ffwrdd pan oedd hi yn ei harddegau. Erbyn hyn mae'n nyrs brofiadol gydag Ymddiriedolaeth NHS Barking, Redbridge a Havering yn nwyrain Llundain ac yn un o'r rhai sy'n arwain y rhaglen frechu yno. Cyhoeddwyd erthygl amdani ym mhapur y *Metro* ym mis Mawrth yn adrodd am ei gwaith caled yn trefnu ac yn cydlynu'r ymdrech i roi brechiad i ddegau o filoedd o bobl, yn enwedig

yr henoed a phobl fregus sy'n dioddef gan gyflyrau meddygol, yn ogystal â staff rheng flaen yn yr ysbytai.

Galwodd Taz am gymorth nyrsys a gweithwyr iechyd sydd wedi ymddeol er mwyn gofalu fod dwy ganolfan frechu fawr yn gallu rhoi'r brechiad yn erbyn Covid i gymaint o bobl â phosib. Bu'r ymateb yn wych, meddai, a llwyddwyd i roi'r canolfannau brechu ar waith mewn amser byr iawn. O fewn cyfnod o bythefnos yr oedd dwy ganolfan wedi eu sefydlu ac yr oedd llawer o gyd-weithwyr Taz o fewn y Gwasanaeth Iechyd yn eu dagrau pan gawsant y brechiad cyntaf am ei fod yn rhoi rhywfaint o ddiogelwch iddynt yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

Gan fod staff yr ysbytai wedi bod yn trin cleifion Covid ers blwyddyn, a wynebu peryglon i'w hiechyd nhw yn eu gwaith yn y rheng flaen, roedd clywed fod brechlyn ar gael yn rhyddhad mawr.

'Roeddem ni aelodau'r staff yn yr ysbytai wedi dychryn pan glywsom am y feirws y tro cyntaf am nad oeddem yn gwybod beth fyddai maint ei effaith na'i beryglon,' meddai Taz. 'Mae'r brechlyn fel y golau ym mhen draw'r twnnel. Mae'n cynnig gobaith i bobl y gallant fynd yn ôl i ryw fath o normalrwydd.'

Llongyfarchiadau i Taz a'i chyd-weithwyr o fewn y Gwasanaeth Iechyd am eu gwaith yn gweinyddu'r cynllun brechu.

Merched y Wawr Tal-y-bont a'r cylch

Trefnwyd dau gyfarfod rhithiol i'r aelodau yn ystod mis Mawrth. Ar y 25ain pleser oedd gwrando ar Lona a Morfudd o Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn trafod a dangos gwaith Celf merched o bwys a gasglwyd gan y Llyfrgell dros gyfnod o flynyddoedd. Cawsom ychydig o hanes yr artistiaid a'u gwaith a'r dylanwadau fu arnynt.

Yna ar y 31 Mawrth cawsom ein tywys yn rhithiol o amgylch prifddinasoedd Ewrop gan Dorian Morgan o Lamber a fu ar wyliau mewn 53 ohonynt. Cawsom gynghorion ar ba rai i ymweld â hwy a hefyd pa rai i'w hosgoi! Tybed pa bryd y bydd hi'n saff i ni fentro i rai ohonynt?

Grant Mayhew Ltd


GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL



01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk

Urddo lolo yn Gymrawd er Anrhydedd

Mewn seremoni rithiol ar y We ganol mis Mawrth urddwyd Dr Iolo ap Gwynn, Garreg-wen, Tal-y-bont, yn Gymrawd er Anrhydedd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Cyflwynwyd yr anrhydedd i Iolo i gydnabod ei gyfraniad oes i astudiaethau gwyddonol trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar hyd ei yrfa daliodd ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg yn y gwyddorau. Cyn ymddeol o Brifysgol Aberystwyth, lle'r oedd yn dysgu ac yn ymchwilo ym maes Bioleg, bu'n cadeirio Canolfan Edward Llwyd a oedd yn sefydliad arloesol er hyrwyddo dysgu gwyddoniaeth trwy'r Gymraeg. Dyma'r ganolfan a osododd seiliau cadarn ar gyfer y math o waith sydd bellach yn cael ei wneud gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei hun.



Dr Iolo ap Gwynn

Yn ogystal â'i gyfraniad yn dysgu myfyrwyr israddedig a chyfarwyddo ymchwil myfyrwyr uwchraddedig, mae Iolo hefyd wedi cyhoeddi llawer yn ei faes arbenigol ac wedi bod yn olygydd ar y cylchgronau gwyddonol Cymraeg *Y Gwyddonydd*, *Delta*, ac *Atom*, ac y mae'n un o gyd-sefydlwyr a chyd-olygyddion y cylchgrawn Saesneg i wyddonwyr rhyngwladol, *eCM Journal*. Cylchgrawn sy'n arbenigo ar wyddoniaeth y gell sy'n cael ei gyhoeddi ar y We gan sefydliad a leolir yn y Swistir yw hwnnw. Mae Iolo hefyd wedi bod yn cefnogi gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ers ei sefydlu.

Cyn-fyfyrwr ymchwil y Coleg Cymraeg

Yng nghynulliad blynyddol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol cafodd Dr Manod Williams, Y Garth, Tal-y-bont, ei gydnabod fel un a gwblhaodd ei radd PhD ar ôl derbyn ysgoloriaeth y Coleg Cymraeg a mynd yn ei flaen i ddysgu gwyddoniaeth trwy'r Gymraeg. Erbyn hyn mae Manod yn ddarlithydd mewn Biomilfeddygaeth a Gwyddor Anifeiliaid ym Mhrifysgol Aberystwyth. Fel rhan o'i ddoethuriaeth roedd yn datblygu deunydd dysgu trwy'r Gymraeg ar systemau cynhyrchu da byw. Lansiodd y Brifysgol gwrs gradd newydd mewn Milfeddygaeth a fydd yn dechrau ym mis Medi 2021 ac mae Manod yn un o'r rhai a fydd yn cyfrannu at ddysgu'r cwrs hwnnw.



Dr Manod Williams

Gwasanaeth argraffu diguro

Holwch Paul am bris!
paul@yloffa.com
01970 832 304

yloffa
Talybont
Ceredigion
SY24 5HE
www.yloffa.com

TEYRNGED

Mary Elizabeth Roberts (Betty), 1927-2021



Gyda thristwch y cyhoeddwyd marwolaeth Mrs Mary Elizabeth Roberts, 99 Maes-y-deri, Tal-y-bont. Roedd yn wraig annwyl iawn y bydd llawer o blant yr ardal yn cofio amdani fel cynorthwywraig yn yr ysgol amser cinio ac yn gyfrifol am gasglu'r arian cinio am bron 21 mlynedd. Ar ôl cwmpo a dioddef anaf i'w phen ar Wyl y Banc fis Awst diwethaf symudodd at Gaynor a Doug, ei merch

a'i mab yng nghyfraith, i Langwryfon. Gwelodd yn dda iawn o'i hanafiadau, ac oherwydd amgylchiadau'r pandemig penderfynodd aros yn Llangwryfon am ei bod mor gartrefol yno.

Dyma deyrnged a gyflwynwyd gan Gaynor i'w Mam ar ran y teulu yn y gwasanaeth yng Nghapel Bethel, Tal-y-bont.

"Ganwyd Betty ym Maesglas (ger Bedd Taliesin) i Gwilym a Myfanwy Evans ar 26ain o Ebrill 1927, yr hynaf o dri o blant. Roedd ganddi ddau frawd, Dewi'r ieuengaf a'r diweddar Ieuan (Ieu, Tynant). Symudodd Gwilym a Myfanwy i'r Fagwyr am gyfnod cyn dychwelyd i Faesglas ar ôl i Elen a Morgan Jones symud i Ben-lôn. Roedd hynny ar ôl i Morgan Jones golli ei olwg. Ac wedyn yn ddiweddarach symudodd Gwilym a Myfanwy i Tynant.

Byddai Ieu a Betty yn cerdded i'r ysgol bob dydd, ac ar ôl i'w rhieni symud i Fagwyr, roedd hi'n aros yn Fagwyr o nos Lun hyd nos Iau ac yn aros ym Maesglas gyda'i Mam-gu a'i Thad-cu dros y penwythnos. Byddai'n cerdded i gapel Bethel dair gwaith y Sul ac roedd yn gorfod mynd adre ac adrodd y bregeth wrth ei Thad-cu!

Dechreuodd weithio fel morwyn yn Llys Ynyr yn 14 oed a phan oedd yn 15 symudodd i fyw i Llys Ynyr nes iddi hi a Gwilym Roberts briodi yma yng nghapel Bethel ar 31 Ionawr pan oedd hi'n 24 mlwydd oed. Buont yn briod yn hapus iawn am dros 59 o flynyddoedd nes colli Gwilym yn Awst 2012. Efe oedd ei bywyd.

Mynychodd Betty'r Eglwys gyda Gwilym a'r teulu ar ôl priodi, ac aethant i fyw i Blaeneinion, Eglwys-fach, am tua blwyddyn a hanner. Cafodd Einion ei eni tra oeddynt yn Blaeneinion. Yna symudon i rif dau, Ceulan terrace, Tal-y-bont, lle ganwyd Geraint a Gaynor (yn efeilliaid) ac Eirian. Symudon i 99 Maes-y-deri yn 1963.

Mi fuodd y gweithio a mwynhau ei hamser yn yr ysgol gynradd dros yr awr ginio a chymryd arian cinio am bron 21 mlynedd nes ei hymddeoliad yn chwe deg a phump yn Ebrill 1992. Bu gartref efo Gwilym, a'r plant a'r wyrion a'r gorwyrion oedd ei bywyd. Person annwyl, tawel byth yn cwyno.

Roedd yn mwynhau mynd am 'outing bach' yn y car i wahanol fannau. Roedd Gwilym a hithau yn mwynhau'r boreau coffi gyda'r henoed. Ac ar ôl iddi golli Gwilym roedd Betty yn edrych ymlaen at fynd i'r 'day Centre' ar y bws bob dydd Llun, Mercher a Gwener, lle'r oedd hi'n mwynhau cwrdd ag eraill. (Diolch i Dr Hosker o Feddygfa'r Borth am wneud yr awgrymiad i Betty fynd yno.)

Roedd Betty yn aelod ffyddlon yn Eglwys Dewi Sant yn y pentref hwn, ac roedd yn siomedig iawn pan gaewyd yr adeilad ychydig o flynyddoedd yn ôl. Ond roedd gweddio ac addoli yn parhau i fod yn ganolog i'w bywyd ac roedd yn bleser mawr i mi, ac i bobl eraill, i ddod â'r cymun iddi hi yn 99 Maes-y-deri a chael sgwrs dros baned.

Ar ôl cwmpo a chael anaf i'w phen ar Wyl y Banc fis Awst diwethaf aeth at Gaynor a Doug i Langwryfon. Mi ddaeth dros yr anafiadau yn dda dros ben, ac oherwydd amgylchiadau'r pandemig penderfynodd aros yno yn hapus iawn.

Yn ystod y misoedd diwethaf gwnaeth fwynhau galwadau fideo a ffôn gyda'i hwyron a'i gorwyrion a'i ffrindiau, ac roedd yn edrych ymlaen bob dydd Sul at wasanaeth plwyf Bro Padarn ar Zoom. Diolch hefyd i'r teulu a ffrindiau a oedd yn ei ffonio hi yn gyson ac yn dod heibio i'w gweld tu fas yn ystod yr haf ac yn a drwy'r ffenest. Mae gormod ohonoch i'w henwi i gyd.

Bu farw Betty yn dawel ac yn heddychlon ar ôl salwch byr, ac roedd yn hapus a bodlon hyd at y diwedd. Nawr mae'n gorwedd mewn heddwch efo Gwilym ei hanwyl. Bydd pawb ohonom yn gweld ei heisiau, ond bydd Betty yn dal i fyw yn ein calonnau am byth."

Diolch

Hoffai Einion, Geraint, Gaynor, Eirian a'u teuluoedd ddiolch yn ddiffuant i berthnasau, cymdogion a ffrindiau am yr holl negeseuon o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli Mam, Mam-gu a hen Fam-gu annwyl. Diolch i Gwyn a Janet Evans am holl drefniadau'r angladd, i'r Canon Andrew Loat am gynnal y gwasanaeth, ac i swyddogion Capel Bethel am ganiatâd i ddefnyddio'r capel. Diolch hefyd am y rhoddion er cof, sy'n cael eu gwerthfawrogi yn fawr.

ADA J

Am nifer o flynyddoedd, mae fy chwaer Nia a minnau wedi bod yn trafod y syniad o gychwyn busnes newydd i greu dillad marchogaeth ffasiynol. Ar ôl ymchwilio a pharatoi am gyfnod, penderfynwyd mai'r cyfnod clo oedd yr amser gorau i farchnata a rhoi pethau at ei gilydd i ddechrau gwerthu.



Mae Nia a minnau wedi bod yn marchogaeth ceffylau ers pan oeddem yn blant ifanc iawn. Mae cystadlu ledled Prydain wedi cantiatáu inni brofi ac sylwi ar ystod eang o ddigwyddiadau marchogaeth ar lefel uchel. Y nodweddion pwysicaf i ni wrth gynllunio ein dillad oedd cysur, steil a cherflunio corff.

Ar hyn o bryd rydym yn stocio leggins marchogaeth, haenau sylfaen, hwdis a hetiau *bobble*

mewn ystod o liwiau o faint bach i fawr. Rydym hefyd yn edrych ar ehangu ein hystod a gobeithio stocio rhai dillad iau yn y dyfodol agos.

Mae ein holl ddillad wedi'u henwi ar ôl yr ardal leol, gan gynnwys yr ystod 'Ynys Las'. Ffilmiwyd ein fideo hyrwyddo hefyd yn Ynys Las lle gwnaethom ddefnyddio ein ceffylau ein hunain.

Rhaid mewnforio rhywfaint o ddillad oherwydd costau, ond rydym yn ceisio ein gorau i ddod o hyd i fusnesau lleol a'u cefnogi lle bo hynny'n bosibl. Mae'r holl ddeunydd pacio wedi'i ddylunio a'i wneud yng Ngheredigion.

Ar hyn o bryd rydym yn gwerthu ein cynnyrch ar-lein, www.adajequestrian.com ac mae gennym hefyd dudalennau Instagram a Facebook lle gellir cysylltu â ni.

Hoffem ddiolch i bawb am eu cefnogaeth ers mis Tachwedd ac rydym yn edrych ymlaen yn fawr at y dyfodol!

Eleri Wyn Jenkins



MWY AM HEN ENWAU LLEOL

John Evans, Bryn Eleri, Tal-y-bont, a anwyd ac a fagwyd yn y pentref, sy'n trafod mwy o enwau lleol y mis hwn. Mae John yn adnabod yr ardal fel cefn ei law ac yr ydym yn wir ddiolchgar iddo am gofnodi'r enwau fel nad ydynt yn mynd yn angof.



Llyn Priad ar afon Leri o gasgliad David Hutton trwy law Hefin Llwyd.

‘Yn dilyn esiampl Gwilym Jenkins ac ysgogiad Rhys Huws, dyma fynd ati i hel rhai o'r ‘hen enwau’ o gwmpas Tal-y-bont. Mae llwybr yn cychwyn ar riw Tal-y-bont ochr isaf i Llys Etna a heibio Cefn Villa. Yr enw ar y darn nesaf yw'r **Lôn Ddŵr**. Ar ôl mynd dros y sticil mae'r tir yn codi'n eithaf serth. Cyfeirid at y darn yma fel **Banc Felix**. Mae cerrig beddau teulu Felix i'w gweld ym mynwent Tal-y-bont. Pan oedd teulu Mam yn tyfu fyny yn Nant-y-nod roeddent yn cael eu cludo i'r ysgol gan Frêc Felix ond roedd rhaid cerdded adref. Hoffwn gael gwybod a oes cysylltiad â'r enw.

Ychydig nes draw at Llety Llwyd mae darn o dir a elwir **Cae Doctor** neu **Clap Doctor**. Ni fedraf gynnig esboniad o'r enw. Ar draws y cwm yn Allt-y-Crib mae 'na lwybr a elwid **Lôn Tŷ Powdwr**. Adeilad bach oedd y Tŷ Powdwr i storio'r powdwr du i chwythu'r graig. Byddent fel rheol yn weddol bell o'r gwaith mwyn rhag ofn iddynt ffrwydro ar ddamwain. Roedd olion o'r adeilad i'w gweld cyn i'r coed gau am bopeth. Wedi i'r coed gael eu teneuo daeth y llwybr yn ôl i'r golwg ond methais ddod o hyd i'r adfeilion.

Ychydig nes fyny ar fanc Tŷ Hen roedd **Llyn Jac**. Roedd y lle yn codi arswyd ar blant o bob oed. Tarddiad yr enw yw *Jack-o-Lantern* neu *Will-o-the-Wisp*. Effaith nwy naturiol yn codi o dir corsiog ac yn hunan-danio gan greu golau wedi nos. Gwn am un neu ddau sydd wedi gweld y rhyfeddod yma a hawdd iddynt gredu gweld ysbryd.

Lawr y cwm ar afon Leri mae **Llyn Priad** (pen rhaeadr). Mae yn bwl dwfn iawn. Mae un o luniau E. O. Jones yn dangos argae pen isaf i'r llyn ond mae honno wedi mynd ers blynnyddoedd. Clywais stori am saer lleol, sef George Hughes, Maesnant. Roedd yn berchen moto-beic oedd wedi mynd yn styfnig i'w gychwyn. Wedi diflasu fe'i gwrthiodd a'i daflu i ddyfnderoedd Llyn Priad. Mae'n siŵr ei fod yn dal yno.

Ychydig lathenni yn nes fyny mae argae arall. O dan honno roedd 'na bwl o'r enw **Cornel Boteli**. Roedd poteli yn crynhoi yma gan lif y dŵr ac roedd hwyl i'w gael wrth saethu atynt o'r lan gyferbyn. Lle da hefyd i osod rhwyd i ddal eogiaid; os methent â neidio'r argae syrthient yn ôl i'r rhwyd.

Tua chwarter milltir i lawr yr afon mae 'na bwl o'r enw **Llyn Lewis Huws**. Lle da arall am bysgod gan iddynt orwedd dan sillf o graig. Clywais y diweddar Ceiriog Griffiths yn dweud mai yma y dowd o hyd i gorff gŵr anffodus a syrthiodd i'r afon yn Nhal-y-bont.

Yn nes i'r pentref ar yr afon Ceulan tu ôl i'r Lolfâ erbyn hyn roedd lle cyn o dir a alwyd y **Transh**. Mewn gwirionedd y transh oedd yn arwain dŵr i droi'r rhod yn ffatri wlân Ceulan. Ym mhen uchaf y transh roedd fflodiart i reoli'r dŵr. O droi llif y dŵr yn ôl i'r afon roedd pysgod yn cael eu dal mewn pyllau bach ar hyd y transh a hawdd oedd eu dal gyda dwylo. (Bu pysgota â gwialen yn hir iawn yn cyrraedd Tal-y-bont!) Erbyn hyn mae tirwedd y lle

wedi newid gan i'r argaeon fynd gyda'r llifogydd gan beri i wely'r afon ostwng gan sawl troedfedd.

Yma hefyd roedd y **Llyn Tro** neu'r **Llyn Mawr**. Lle da i gael grafel o'r afon gan fod y dŵr yn troi yn gylch. Mae sawl llwybr gardd wedi'i greu o'r stwff yma. Credem yn blant fod Llyn Tro yn ddiwaelod. Siom braidd oedd darganfod nad oedd ond tua dwy droedfedd ar ei ddyfnaf.

Roedd **Domen Transh** heb fod ymhell i lawr yr afon. Byddai pob math o sbwriel yn cael ei ddymchwel yma; er na welid neb yn cario dim, eto roedd pethau'n ymddangos tros nos. Lle am lygod mawr. Mwy o faint na chathod.

Roedd gofyn troedio'n ofalus yn y lle cyn hwn. Daw i gof y cwpled o waith y diweddar Barchedig Gwyn Evans a luniodd yn y Babell Llen yn nhalwrn y beirdd yn y Genedlaethol. Y dasg oedd ateb llinell.

Llinell osod: Yn y coed lawr yn y cwm
Ateb: Ein toiled oedd ers talwm.
Gwell cloi gyda hyn.'

Garej Davmor

Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars
Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig
Y gareg gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

Alun Davies

Contractiwr Trydanol

T 01970 832142 **M** 07703 169813

Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA
E alun.davies142@btinternet.com

Pistyll y Llan | Talybont | Ceredigion | SY24 5HF
gruffrhysjones@gmail.com

07594 349 354
01970 832 543

Gruffydd Jones

Briciwr • Gwaith Maen • Slabio

GWILYM ac ALEX

Un o agweddau mwyaf anodd y clo mawr yw'r gwaharddiad ar gymdeithasu a dod i nabod ein gilydd yn well. Ac mae hyn yn arbennig o wir yn achos ein cysylltiad gyda gweinidog Bethel, Gwilym Tudur a'i wraig Alex. Mewn ymdrech i gau'r bwch, dyma bortread byr o'r ddau.



Gwilym

Bachgen y ddinas wyf i – cael fy ngeni a'm magu yng Nghaerdydd. Mae fy nhad yn weinidog ar gapel Ebeneser a mam yn athrawes. Mae gen i chwaer Lowri sy ar ei blwyddyn olaf ym Mhrifysgol Llundain ac ar ôl graddio bydd hi'n mynd i Gaerdydd i gwblhau gradd uwch. Es i ysgol Glantaf ac ystod fy ardegau des yn

Gristion trwy ddarlenn Efengyl Mathew a sylweddoli fod Duw yn fy ngharu a bod Iesu ei fab wedi marw yn fy lle. Gan fy mod am astudio Cymraeg a Hanes Cymru roedd Prifysgol Aberystwyth yn ddewis naturiol. Treuliais ddwy flynedd ym Mhantycelyn yn y cyfnod pan oedd y lle o dan fygythiad fel neuadd Gymraeg. Gyda sawl un arall bûm yn protestio yn erbyn y penderfyniad ac erbyn heddiw mae'n braf gweld Pantycelyn ar ei newydd wedd.

Yn ystod y ddwy flynedd dechreuais addoli yn Seion a hynny yng nghwmni sawl preswlydd o'r Neuadd. Cawsom groeso cynnes ac wrth i fi fagu hyder ac, yn bwysicaf, cryfhau fy ffydd, cyflwynais ambell bregeth yn Baker Street. Ydw, rwy'n ymwybodol fy mod yn aelod o deulu 'gweinidogaethol' ond doedd dim pwysau arnaf i ddilyn fy nhad. Rwy hefyd yn sylweddoli i taid (Parch Ddr R Tudur Jones) fod yn weinidog yn Baker St. Dim ond tair oed oeddwn pan fu farw taid ac er mai cof plentyn sy gen i ohono rwy'n teimlo fy mod wedi dod i'w adnabod drwy ei lyfrau a'i weithiau ysgrifenedig. Yn ystod fy nghyfnod yn y Brifysgol teimlais fod Duw yn fy ngalw i'w wasanaethu fel gweinidog i rannu'r newyddion da am Iesu gydag eraill

I gryfhau fy nealltwriaeth o'r Beibl ac i ymestyn fy ngwybodaeth ddiwinyddol es i Goleg Wycliffe yn Rhydychen wedi graddio. Mae Wycliffe yn sefydliad cynnes a chroesawgar sy'n rhoi pwyslais ar fywyd a gweithredoedd ymarferol y Cristion. Mae hefyd yn Goleg rhyngwladol sy'n denu myfyrwyr o bob cwr o'r byd. I ennill gradd M.Phil. penderfynais ymchwilio i hanes diwinyddiaeth yng Nghymru gan ganolbwyntio ar gyfraniad George Lewis (1763–1822) un o weinidogion amlycaf y genedl yn y ddeunawfed ganrif. Er bod fy astudiaethau yn Rhydychen, roedd y deunydd crai yn y Llyfrgell Genedlaethol gyda hyn wrth gwrs yn cryfhau'r cysylltiad ag Aberystwyth.

Bellach rwyf wedi bod yn weinidog ar Seion Baker St. a Bethel ers dros chwe mis, a gyda Alex wedi cael ein croesawu'n ffurfiol i'r ofalaeth mewn oedfa hyfryd yn Rhagfyr 2020. Ydi mae'n gyfnod anodd a'r anhawster mwyaf i fi yw cydymdeimlo â theulu ar adeg galar. Mewn profedigaeth y cam naturiol yw bod yn agos, rhoi braich o gwmpas i gynnal a chysuro. Dyw hyn ddim yn bosib a rhaid bodloni ar air dros y ffôn a chadw pellter. Ar yr ochr arall mae'r cyfan wedi gofyn i ni droi at ddulliau newydd o addoli ac mae'r oedfeuron Zoom wedi bod yn fendith i fi a gobeithio i'r aelodau. Yn naturiol brysied y dydd pan fyddwn yn gallu cyfarfod wyneb yn wyneb.

Alex

Rwy'n dod o Rwmania – yn benodol o Timisoara, dinas yn y gorllewin a'r drydedd yn y wlad o ran poblogaeth. Dyma fan cychwyn y chwyldro yn erbyn yr Arlywydd Ceausescu ac yn 1989 dynodwyd Timisoara fel y ddinas gyntaf yn rhydd o

Gomiwnyddiaeth yn Rwmania. Mae fy nhad yn Uwch Swyddog yn yr Heddlu a mam yn feddyg, yn gweithio mewn practis lleol ac yn cynorthwyo yn yr ysbyty agosaf. Yn 16 mlwydd oed es i ysgol breswyl ger Rhydychen i gwblhau fy addysg uwchradd a thrwy waith Undeb Cristnogol yr ysgol a thrwy astudio Efengyl Marc des i ffydd yn Iesu Grist. Oddi yno es i Brifysgol Durham i astudio mathemateg.

Ar ôl graddio es i nôl i ddysgu yn yr ysgol breswyl a dechrau mynychu Eglwys St Ebbe's yng nghanol Rhydychen. Mae hon yn eglwys weithgar a bywiog lle mae rhwng 800 a 1000 yn addoli – teuluoedd, ymwelwyr rhyngwladol a myfyrwyr – hen adeilad ond yn fodern a golau tu mewn. A dyma lle wnes i gwrdd â Gwilym, mewn astudiaeth Feiblaidd! Wnaethon ni briodi yn ystod haf 2020 ac yn ffodus roedd fy rhieni yn gallu bod yn bresennol yn y briodas ac wrth gwrs rheini Gwilym a rhai ffrindiau.

Rwy'n cofio yn dda iawn fy ymweliad cyntaf ag Aberystwyth. Gwilym a fi yn cerdded y prom a'r tywydd yn braf – mae hynny wastad yn help. Mae'r dref yn hardd ac mae'r bae a'r môr yn arbennig. Yn ystod y cyfnod clo ni wedi cerdded llawer ac o fis i fis dwi wedi dod i nabod y dref a'r ardal o gwmpas yn reit dda. Rhywbeth sy'n llanw fy amser ar hyn o bryd yw dysgu Cymraeg. Gwers o bedair awr bob wythnos ar y We ac yna ymarfer. Yn naturiol siarad gyda Gwilym ac yn ychwanegol cynnal sesiynau sgwrsio ar Zoom gyda Rhiannon (Rhiannon Davies, Aelod yn Seion). Mae'n fwriad gennyf i gymhwyso fy hun fel athrawes gan obeithio cychwyn ar y cwrs yn yr Hydref. Am nawr mwynhau cwmni ein gilydd. Ydw dwi wedi dod i nabod y dref ond yn llawer pwysicach rwy'n edrych ymlaen at adeg llacio rheolau pan fydd modd dod i nabod y bobl.

Diolch i'r ddau a chroeso cynnes i Bethel ac i Dal-y-bont. Dyma ymadrodd perthnasol Alex – Daw eto haul ar fryn! GIE.

6 Maes y Felin | Talybont | Ceredigion | SY24 5DZ

www.michaelrowlands.ltd.uk
m.rowlands1958@gmail.com



Michael Rowlands
Adeiladwr

01970 832 732 • 07929 003 576

STORFA HUNAN FYNEDIAD



UNEDAU STORIO DIOGEL & WEDI GWRESOGI



MONITRO DIOGELWCH
24 AWR

Storfa Cartref & Busnes

Bocsas a Bubblewrap

Symud gyda 

STORFA CANOLBARTH CYMRU

Tel: 01654 703592
Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

MID WALES STORAGE
www.midwalesstorage.co.uk

Nofel newydd


Braf iawn yw medru nodi fod Ysbryd Sabrina, degfed cyfrol a phumed nofel Martin Dafis, yr awdur o Dre Taliesin, bellach wedi'i chyhoeddi.

Mae'r nofel yn dilyn hynt a helynt Hayley Havard, merch o ardal y Fenni sy'n symud i fyw i Amwythig er mwyn ceisio darganfod beth ddigwyddodd i'w brawd Dylan, a ddiflannodd yn ddisymwth o'u cartref bymtheng mlynedd ynghynt. Yn Amwythig, daw i gysylltiad â phob math o gymeriadau brith sydd, yn y pen draw, yn ei harwain at Ddylan arall, sef bachgen ifanc sydd â chysylltiad agos iawn â Hayley a'i brawd. Yn y cefndir ceir cyfeiriadau at isfyd sy'n llawn trais a thrasiedi, ac at gludo ffoaduriaid a cheiswyr lloches anghyfreithlon i'r wlad.

Nofel ddigelwch gyfoes yw hon. Mae'r stori'n ddigon gafaelgar a hawdd ei darllen. Daw'r cymeriadau'n fyw, ac mae'r dirgelwch ynghylch Dylan, brawd Hayley, yn parhau tan y diwedd. A beth sy'n digwydd iddo? Wel, bydd yn rhaid ichi ddarllen y nofel er mwyn darganfod hynny.

Mae'r gyfrol wedi'i chyhoeddi gan Wasg y Lolfa, a'i phris yw £8.99.

Delyth Huws



Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Cyfarfod Misol Mis Mawrth 2021

Cynhaliwyd cyfarfod misol mis Mawrth ar 'Zoom' ar nos Lun, 29 Mawrth 2021, gyda naw o'r Cynghorwyr yn bresennol ynghyd â'r Clerc, Mr Rab Jones. Dymunodd y Cadeirydd, Cyng Nia Richards, groeso cynnes i bawb.

Problemau gyda Llygredd Carthffosiaeth yn Nhal-y-bont

Ymddiheurodd y Clerc nad oedd eto wedi bod yn bosib cysylltu gyda swyddogion Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru i drefnu cyfarfod i drafod ateb hirdymor i ddatrys y problemau gyda llygredd carthffosiaeth yng ngwaelod y pentref yn Nhal-y-bont.

Cae Bach Tal-y-bont

Cafwyd diweddariad oddi wrth y Cadeirydd, Cyng Nia Richards, ar gyfarfod diweddar yr Is-Bwyllgor Prosiect Cae Bach. Eglurwyd fod Mrs Aimee Roberts o Fachynlleth wedi ymuno yn y drafodaeth ar 'Zoom' gyda phrofiadau y grŵp a fu'n trefnu y gwaith i adnewyddu yr offer yn y Cae Chwarae ym Mhlas Machynlleth. Cytunwyd fod cyngor Aimee wedi bod yn werthfawr dros ben i aelodau'r Is-Bwyllgor.

Sefyllfa Coronafeirws

Cafwyd diweddariad oddi wrth y Cynghorydd Sir, Cyng Ellen ap Gwynn, ar y sefyllfa ddiweddaraf gyda'r coronafeirws o fewn y Sir. Cadarnhawyd fod pethau yn parhau i symud ymlaen yn dda. Mynegwyd siom fod potel hylif diheintio wedi diflannu o'r mynediad i'r Cae Bach. Cytunwyd i roi potel newydd yn ei lle a chadw golwg ar y sefyllfa.

Contract Torri Gwair

Eglurodd y Clerc fod y Cyngor wedi derbyn dau gynnig am y contract torri gwair. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd cyflwyno'r contract i Mr Dafydd Williams. Cytunwyd i yrru llythyr at Mr Rob Griffiths i ddiolch iddo am ei waith ardderchog yn cynnal y fynwent a thorri'r gwair o fewn ardal y Cyngor Cymuned dros y chwe blynedd diwethaf.

Offer Diffibriliwr Bont-goch

Darllenodd y Clerc ohebiaeth a dderbyniwyd oddi wrth Cath Lloyd-Williams ynglŷn â'r offer diffibriliwr ym mhentref Bont-goch. Eglurwyd fod Cath yn gofyn am gymorth ariannol tuag at adnewyddu y batri a'r 'pads' sydd eu hangen ar un o'r offer yn y pentref. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i dalu am y nwyddau sydd eu hangen ar frys ond hefyd i ystyried a oes angen cynnal dwy uned diffibriliwr ym mhentref Bont-goch yn yr hirdymor gan ystyried costau archebu dau flwch newydd ar gyfer yr offer.

Materion Ffyrdd a Materion Eraill

Cafwyd diweddariad ar y sefyllfa gyda nifer o eitemau sydd angen sylw ar y ffyrdd yn y Gymuned a nifer o faterion eraill yn cynnwys diweddariad am faterion yn y fynwent a phroblemau gyda choed yn afon Leri.

Rab Jones

Clerc Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

rab.jones@btinternet.com / 07831 402 002 / 07904 716 180



Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

TEIARS
HUW LEWIS
M.O.T. CENTRE

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT

HUWLEWISTYRES.COM

Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.
ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221

Y LLEW GWYN
Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.
Ar agor bob dydd
Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00
Nos Fawrth: Pei a Point 6.00 tan 9.00 £8.50
Nos Iau: Cyri a Point 6.00 tan 9.00 £8.50
Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrw: £7.95 Dau gwrw £9.95)
Ystafelloedd ar gael
01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

Dan Do

Y tro hwn yn y gyfres ar dai hen a newydd cawn gip ar yr ymchwil a wnaed ar hen dŷ fferm Llawrcwm-bach, uwchlaw Bont-goch, sydd bellach yn adfail. Ers 2019 fe fu tîm o bobl ifanc Panel Ieuenctid Treftadaeth Ceredigion, dan ofal y Comisiwn Henebion (RCAHWW), yn ymchwilio i hanes y tŷ â'r gweithfeydd mwyn cyfagos. Mae llyfr yn dwyn y teitl *Hanes Tŷ ar y Mynydd*, sy'n adrodd hanes y prosiect, ar fin cael ei gyhoeddi. Casgliad o ddyfyniadau o'u sgysiau, ac o'u hatgofion am ymweld â'r tŷ ac archwilio'r dirwedd o'i gwmpas, yw'r testun.



Y gegin fyw yn Llawrcwm-bach

Tŷ cerrig ym mrynau anghysbell Ceredigion yw Llawrcwm-bach. Mae'r llyfr yn adrodd ychydig o hanes y cyn-berchennog, Geraint Evans, a 'ffordd o fyw sy'n cysylltu'r fferm fynydd â'r diwydiant

mwynloddio; mae hi'n stori am ddygnwch a barddoniaeth, am lafur caled a lliw, am hanes teulu, iaith a threftadaeth.'

Cafodd aelodau o'r tîm eu syfrdanu o ganfod fod yr hen ddodrefn yn parhau i fod yn y tŷ. Daethant hefyd ar draws hen gotiau, potel o Rangoon Oil, a phapur newydd wedi'i ddyddio yn 1956. Un syndod oedd bod oergell yn y tŷ er nad oedd cysylltiad trydan yno.

Darganfyddwyd hen flychau a oedd yn cynnwys rhosedau o Sioe Tal-y-bont ar hyd y blynyddoedd. Roedd yno hefyd hen ddyddiadur o 1950, eiddo Ceinwen Evans chwaer Geraint. Yn ôl y tîm: 'Mae'n debyg bod y perchennog tua 12 neu 13 oed ac mae'n

rhoi darlun hyfryd o batrwm bywyd yng Ngheredigion wledig yn y 1950au. Mae Ceinwen yn nodi rhif ei llyfr dogni ar y dechrau ac yna cawn dudalennau o wybodaeth ddefnyddiol fel rhestr o theatrau Llundain ac ymadroddion Lladin.'

Noda Ceinwen iddi fynychu gyrfa chwist ar 4 Ionawr 1950: 'Whist Drive yn Ysgol Bontgoch. Fi yn chware am y tro cyntaf, cael 2nd prize Ladies. Jam Dish a caead arni. Gareth yn cael 2nd prize, socks, Geraint yn cael 1st prize cylllell. Mam yn cael Knock-out 'Pyrex Dishes', Chwarae gyda Mrs Jones y Fronallt.'

Bu'r tîm hefyd yn astudio'r hen waith mwyn. Mae'n debyg ei fod yn cael ei weithio o 1820 hyd 1882 ond dim ond adfeilion sydd i'w gweld uwchben y ddaear erbyn hyn. Byddai teuluoedd cyfan wedi gweithio gyda'i gilydd yn y diwydiant. Byddai gwagedd a phlant yn gweithio uwchben y ddaear, felly roedd y mwynloddiau hyn yn lleoedd gwaith mwy gwaraidd na llawer o rai eraill. Un dasg oedd defnyddio gyrdd 10 pwys i dorri'r cerrig yn ddarnau llai fel bod modd eu porthi i roleri mathru wedi'u pweru gan yr olwyn ddŵr yn y cwt mathru.

Mae'r llyfr yn llawn lluniau trawiadol sy'n cyd-fynd â'r hanes difyr am ffordd o fyw sydd bellach wedi hen ddiflannu.

Am fwy o wybodaeth:

<https://unlovedheritage.wales>

<https://coflein.gov.uk/>

<https://www.casgliadywerin.cymru/>

neu cysylltwch â'r swyddog prosiect, Kim James-Williams (K.james-williams@rcahmw.gov.uk).



Hen le tân Llawrcwm-bach

Grŵp Covid Tal-y-bont

Fel pawb arall doedden i erioed yn meddwl ganol Mawrth y llynedd y bydden ni yn dal mewn clo ymhen blwyddyn oherwydd Covid-19. Doedd neb ohonon ni wir yn gwybod beth oedd i ddod er yr holl ddarogan.

Yn ffodus iawn i bentre Tal-y-bont a'r cyffiniau y mae digon o bobl hirben yn ein plith ni, a ganol Mawrth diwethaf wrth weld y salwch yn lledu mi ddaeth pedwar at ei gilydd a gweld y byddai angen creu grŵp i helpu'r gymuned i ymdopi gyda Covid a'i sgileffeithiau. Eryl Bray, Linda Denton, Jenny Fothergill ac Alexis Williams benderfynodd sefydlu grŵp a fyddai yn rhoi gwybod i bobl beth oedd y diweddara ac yn cynnig help llaw.

Daeth Grŵp Covid Tal-y-bont i fod ar y 18fed o Fawrth 2020 yn swyddogol. Erbyn yr 20fed o Fawrth roedd taflen wedi ei chreu ac wedi ei dosbarthu drwy'r pentre a'r cyffiniau yn sydyn reit ac yn gwneud dau beth – gofyn am wirfoddolwyr i helpu a rhoi rhifau cyswllt i unrhyw un oedd angen help mewn pa bynnag ffordd.

Erbyn y 23ain o Fawrth roedd 6 wedi gofyn am help a 49 wedi gwirfoddoli i helpu. Tystiolaeth o gymuned glòs yw'r ffaith nad oedd mwy wedi gorfod gofyn am help yn swyddogol. Cafodd llawer iawn mwy o bobl help gyda siopa, casglu moddion, anfon neges, cefnogaeth gyffredinol a hynny drwy nabod pobol gymdogol oedd yn barod iawn i fod yn gefn. Rwy'n cofio gofyn i hen gymydog a oedd e angen help a roedd e'n dweud bod pobl ifanc wedi symud fewn yn ddiweddar i'r tŷ drws nesa ac yn gwneud y siopa iddo fe a'i wraig. Dieithriaid tan y clo. Ffrindiau o dan y clo.

Faint ohonom ni sydd wedi dweud "rydyn ni'n lwcus o ble ni'n byw"? ... esiampl arall o hynny yw'r ffigyrau yma.

Drwy'r clo mawr cyntaf bu'r Grŵp Covid yn rhoi cymaint o wybodaeth â phosib ar y cyfryngau cymdeithasol – creu grŵp WhatsApp a Facebook gan hefyd roi lle i bobl ofyn cwestiynau,

rhannu ofnau, lleisio barn a jyst teimlo bod eraill o'u cwmpas yn profi'r un pethau. Roedd y Grŵp hefyd yn rhan o Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion a fu'n cydlynu grwpiau cefnogi drwy Geredigion ac yn sicrhau bod yna gefnogaeth ledled y sir.

Mae Grŵp Covid Tal-y-bont yn cyfarfod yn rheolaidd dros zoom ers blwyddyn er mwyn cael y wybodaeth ddiwedddara ac yn ffodus iawn bod y Cyng Ellen ap Gwynn yn ymuno ac yn gallu rhoi adroddiad yn syth o lygad y ffynnon ar ran Cyngor Ceredigion. Mae wedi bod o help mawr i'r grŵp.


Mi grewyd taflen wybodaeth lawnach ym mis Awst er mwyn atgoffa pobol o'r sefyllfa ddiwedddara a rhestr o'r cyrff cefnogi oedd ar gael ac i atgoffa pobol bod yna help llaw ar gael yn lleol. Er bod llacio wedi bod ar y rheolau aros adre, doedd hi ddim yn rhyddid llwyr i neb!

Drwy grŵp WhatsApp Grŵp Covid Tal-y-bont gwelwyd digon o sylwadau am glo arall yn ystod misoedd yr hydref a doedd e'n sioc i neb pan ddaeth clo mawr arall. Erbyn hyn roedd grŵp Clonc Talybont ar WhatsApp yn brysur iawn ac yn ofod i bobl sgwrsio a chynghori am bopeth gan gadw'r Grŵp Covid yn benodol i gynghorion a ffeithiau.

Ac yn y misoedd mwy diweddar o glo mae'r Grŵp wedi cadw ati i gynnig cyngor a help gan hefyd drafod gyda'r ysgol a chynnig cefnogaeth i rieni oedd yn jygo addysgu adre tra'n gweithio. Yn rhyfeddol y mae Alexis yn dal i helpu er ei fod nawr yn byw yn Guatemala! Rhyfeddodau y cyfryngau torfol a chymdeithasol!

Cofiwch os ydych chi angen cyngor neu help cysylltwch â'r Grŵp drwy WhatsApp neu gyda Eryl Bray 07794 180928 neu Jenny Fothergill 07866 011296.

Catrin MS Davies



Paradwys i Beillwyr – Cystadleuaeth Cletwr i Hybu Peillwyr o Bob Math!

Efallai y bydd rhai darllenwyr *Papur Pawb* yn cofio darn yn rhifyn mis Ebrill flwyddyn yn ôl yn sôn am sut mae Cletwr yn gobeithio gwneud cais i gael ei achredu o dan Gynllun Caru Gwenyn Llywodraeth Cymru. Cynllun arloesol yw hwn i hybu peillwyr o bob math ledled Cymru ac elfen bwysig o'r cynllun yw cael y gymuned i gymryd rhan.

LLAETH LLEOL ORGANIG
ar gael yn y
Cwtsh Llaeth Aberystwyth a Machynlleth

www.llaethjenkinsmilk.co.uk
07813 827 712
@cwtshllaeth

Jenkins, Cerrigaranau Uchaf, Talybont

TAIR CROES I'R BLAID!

6 MAI 2021
O BLAID
CYMRU

☒ Etholaeth
☒ Rhanbarth
☒ Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Hyrwyddwyd gan Mr M Phillips ar ran Plaid Cymru, Ty Gwynfor, Llys Anson, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4AL

Plaid Cymru Party of Wales

Wel, eleni mae Cletwr yn eich gwahodd i greu lle arbennig i beillwyr yn eich gardd y gwanwyn yma. Beth am blannu ychydig o flodau neu goeden flodeuol sy'n denu peillwyr, creu patshyn blodau gwyllt, neilltuo cornel dawel i bryfetach neu hyd yn oed adeiladu gwesty pryfed i hybu a dathlu'r creaduriaid hyn sydd mor hanfodol i lesiant pob un ohonon ni. Ewch at y wefan yma am fwy o syniadau: <https://www.foxleas.com>

Dywedwch wrthon ni beth rydych chi wedi bod yn ei wneud ac anfon llun ar gyfer ein sioe sleidiau ddathliadol yn ystod wythnos hanner tymor yr haf (Wythnos Natur Cymru). Dyddiad cau: dydd Sadwrn 29 Mai 2021. Yn agored i bawb. Anfonwch geisiadau at events@cletwr.com neu eu lanlwytho i'r dudalen Facebook yma: <https://www.facebook.com/Paradwys-i-BeillwyrA-Paradise-for-Pollinators-100518548800954> gan nodi'ch enw, eich oedran os ydych o dan 16 oed a'r pentre lle rydych chi'n byw. Diolch. (Gweler y dudalen Facebook hefyd am fwy o fanylion a syniadau.) Bydd gwobr am y llun/gweithgaredd gorau (un i blant o dan 16 ac un i oedolion).

Hefyd, ydych chi wedi clywed am Ymgrych #CaruLleRydychChi'nByw? Beth am ddefnyddio'ch carreg i ddathlu pryfyn peillio rydych chi wedi'i weld yn eich gardd neu ger eich cartref a'i gadael allan i'ch cymdogion ei mwynhau neu mewn man cyhoeddus? Lanlwythwch a thagio #CaruLleRydychChi'nByw ar y cyfryngau cymdeithasol neu fynd at <https://connectceredigion.org.uk/love-where-you-live>

Siân Saunders (ar ran Grŵp Caru Gwenyn Cletwr)

Ble mae?



Dyma'r ateb i'r llun 'Ble mae.....?' yn rhifyn mis Mawrth o'r papur.

Carreg goffa i Dinah merch Thomas y Troi, Nantllain Uchaf yw hi.

Y gofeb yn Nantllain Uchaf.

Gosodwyd y gofeb gan ei phlant mewn man hyfryd gyda golygfa dros y Figyn a draw at Fae Ceredigion nid nepell o'r llwybr cyhoeddus.

Y Gair Olaf

Yr adeg yma bob blwyddyn rwyf yn arfer paratoi at fy sioe amaethyddol gyntaf, sef y 'Royal Bath & West Show'. Mae croeso cynnes i'w gael yno bob tro ac mae'n braf cael dal lan gyda chystadleuwyr a stiwardiaid.

Wedyn bydd sioeau'r haf yn dechrau gyda Sioe Amaethyddol Aberystwyth, Llanrwst ac yna'r Sioe Fawr yn Llanelwedd. Wedi hynny bydd rhaid teithio i Sioe Sir Fôn.

Un o fy rhesymau i dros gystadlu yw bod y sioeau yn ffenest siop i'r stoc rwyf am ei werthu yn y seli a fydd yn dechrau ym mis Awst i frid fy nefaidd i, sef y Zwartbles, a ddaw yn wreiddiol o'r Iseldiroedd. Mae'r seli yn parhau tan fis Tachwedd.

Ond mae'r flwyddyn diwethaf 'ma oherwydd Covid wedi bod yn ddiflas iawn, a sioeau cynnar wedi eu gohirio yn barod. Ni fyddaf yn gallu cwrdd â ffrindiau a chyd-gystadleuwyr eleni 'to. Gobeithio am flwyddyn well yn 2022 pan fydd y coronafeirws wedi cilio.

Susan Rowlands

Y Daith i Qatar 2022

Dechreuodd ymgyrch Cymru ar gyfer Cwpan y Byd Qatar 2022 ddiwedd mis Mawrth gyda gêm gystadluol yn erbyn tîm gorau'r byd ar hyn o bryd, Gwlad Belg, gêm gyfeillgar yn erbyn Mecsico a gêm gystadleuol arall yn erbyn y Weriniaeth Tsiec.

Cymru ddechreuodd yn fwyaf effro yn erbyn Gwlad Belg gyda symudiad arbennig yn arwain at bâs wych gan y dyn ei hun, Gareth Bale, tuag at Harry Wilson a sgoriodd yn hyderus yng nghornel chwith y gôl ar ôl deg munud o chwarae. Fodd bynnag, taro 'nôl wnaeth Gwlad Belg gan sgorio tair gôl ar ôl rheoli'r meddiant i wneud y sgôr terfynol yn 3-1 i'r Belgiaid. Er colli, roedd y perfformiad yn un addawol i Gymru, yn enwedig yn yr ail hanner gyda Cymru yn creu sawl cyfle da.

Roedd y gêm yn erbyn Mecsico yn gyfle i orffwys prif chwaraewyr Cymru cyn yr ail gêm gystadleuol yn erbyn y Weriniaeth Tsiec. Cyfle felly i Chris Gunter dderbyn ei ganfed cap dros ei wlad ac wrth gwrs i Rhys Norrington-



Rhys-Norrington-Davies (Cymdeithas Bêl-droed Cymru)

Davies o Dal-y-Bont dderbyn ei bedwerydd cap rhyngwladol. Chwaraeodd Rhys yn arbennig mewn safle anghyfarwydd fel cefnwr canol chwith a chadw llechen lân wrth wynebu chwaraewyr talentog Mecsico, megis Jesús Corona a Hirving Lozano. Cyfle da i Rhys greu argraff cyn i Robert Page ddewis ei garfan ar gyfer yr Ewros yn yr haf. 1-0 i Gymru oedd y sgôr terfynol wrth i gawr Caerdydd, Kieffer Moore, sgorio yn slic yn yr hanner cyntaf.

Trydedd gêm Cymru o fewn wythnos oedd yn erbyn y Weriniaeth Tsiec. Gêm galed yn erbyn tîm cystadluol a oedd yn llawn hyder ar ôl cael gêm gyfartal yn erbyn Gwlad Belg. Cafwyd cerdyn coch yr un i'r ddwy wlad. Gôl hwyr Daniel James a thael arwrol oddi ar y llinell gôl gan Joe Rodon a seliodd y fuddugoliaeth 1-0 i Gymru. Mae hyn yn golygu fod Cymru mewn safle da ar gyfer gweddill y gemau yn y grŵp yn sefyll un pwynt o'r ail safle ar ôl chwarae un gêm yn llai.

Eilir Huws

GOLFF

Gyda'r cyrsiau golf bellach ar agor, mae cystadlaethau Clwb Golff Borth ac Ynyslas wedi ailgychwyn. Mae un a serennodd y flwyddyn ddiwethaf, David Griffiths, Maes-y-deri, Tal-y-bont, wedi ailgydio yn ei glybiau a dangos addewid am fwy o lwyddiant unwaith eto eleni. Yn y gystadleuaeth ar 14 Mawrth fe ddaeth yn ail ond yr wythnos ganlynol enillodd y gystadleuaeth Stableford gyda 40 o bwyntiau.

Mae capten y clwb eleni, Karen Evans, Nantllain Isaf, Tal-y-bont, wedi cael dechrau da hefyd, gan ennill y gystadlaeth Stableford a gynhaliwyd ar 15 Mawrth gyda sgôr o 29 pwynt.

Ein Hymgyrch Seiclo

Roeddwn i wedi bod yn meddwl codi arian i elusen cancer Cancer Research UK ers i fy mam – Mair Penri Jones – farw o diwmor eilaidd ar yr ymennydd ym mis Awst 2019. Cafodd lawdriniaeth lwyddiannus i drin cancer y fron ddwy flynedd ynghynt, ond – yn anffodus – fe wnaeth ledaenu i'w hymennydd, a doedd dim mwy fedrai neb wneud. Yna, ym mis Ionawr, collais ffrind agos – Mirain Llwyd Owen – hefyd i diwmor yr ymennydd.

Fe welais bod Cancer Research UK yn rhedeg ymgyrch godi arian oedd yn golygu seiclo 300 milltir mewn mis, a gan 'mod i wedi bod yn seiclo rhyw fymryn (i geisio gofalu nad oedd fy mol yn gordyfu yn ystod y cyfnodau clo bu raid i ni i gyd eu hwynebu yn ystod y pandemig), fe benderfynais mai hwn oedd y cyfle. A phan soniais am y syniad wrth Oisín, fy mab, roedd yntau'n awyddus i ymuno gyda mi.

Er nad ydi 300 milltir (neu 500 km) yn llawer i seiclwr profiadol, roedd hyn 5 gwaith mwy na'r pellter y bûm i'n seiclo ar gyfartaledd mewn mis yn ystod haf y llynedd, felly, fe fyddai cwblhau'r pellter yma yn eitha sialens i rai amhrofiadol fel ni. Mae Oisín – fodd bynnag – yn hoff iawn o gadw'n heini, felly fe fyddai'n gwneud hyfforddwr personol rhagorol i mi!

I wneud y peth hyd yn oed yn fwy o her, fe wnaethon ni benderfynu gwneud tair taith sylweddol, ond symbolaidd. Oherwydd y pandemig, ni fu hi'n bosib i ni fynychu angladd Mirain, felly fe wnaethom benderfynu teithio ar ein beiciau o Bontgoch i fedd fy mam / nain Ois yn Llanycil, ger y Bala, a thaith arall i ddilyn i fedd Mirain yn Llandwrog, ger Caernarfon.

Wedi ambell daith ddechrau'r mis o amgylch y Borth ac Ynys Las i gryfhau'r coesau, fe wnaethom ddechrau ar ein taith i Lanycil



Siôn Pennant ac Oisín wrth fedd Mair Penri yn Llanycil ger y Bala.

fore Sadwrn y 6ed o Fawrth gan deithio hyd ddyffryn Dyfi, drwy Lanwrin, Aberangell ac ymlaen i Ddinas Mawddwy. Yna dringo i Lanydawddwy a thros Fwlch y Groes i Lanuwchllyn. Roedd dringo Bwlch y Groes yn sialens ynddo'i hunan i ddau fel ni, ond fe wnaethom lwyddo i seiclo'r cyfan. Roedd hi'n braf iawn dod i lawr yr ochr arall! Fe wnaethom gwblhau'r daith o 72km mewn tair awr a hanner, gyda rhyw awr a hanner i ginio (ac ambell hoe ar y Bwlch!). Rai dyddiau'n ddiweddarach, ar y 10fed o Fawrth, byddai fy mam wedi dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed.

Yna, ar yr 20fed Mawrth – wedi i'r coesau gael ychydig o orffwys – fe wnaethom gychwyn ar y daith o 128km i Landwrog. Roedd hi'n fore braf, ond oer wrth i ni gychwyn yn gynnar o Bontgoch, a theithio drwy Fachynlleth, drwy Aberdyfi a Thywyn. Ymlaen wedyn dros draphont reilffordd Abermaw, drwy Harlech ac ymlaen i Benrhyndeudraeth a throi ar Lôn Eifion ym Mryncir ar gyfer y cam olaf hyd at y Groeslon, cyn croesi draw am Landwrog lle roedd nifer fechan o'n teulu, ffrindiau, a rhai o deulu Mirain yno i'n croesawu.

Roedd hi'n daith wefreiddiol – yn gymysg o emosiynau, yn enwedig wrth i ni ymweld â bedd ein cyfaill agos, ond roeddem yn hynod falch ein bod wedi ei chwblhau.

Hyd yma, rydym wedi codi dros £3,500. Rydym yn hynod ddiolchgar i bawb sydd wedi cyfrannu i'r achos ac i'r holl gefnogaeth rydym wedi ei derbyn dros y rhwydweithiau cymdeithasol, ac fel arall. Rhaid i mi ddiolch yn fawr hefyd i Helena a Caoimhe am ddarparu 'cerbyd cefnogaeth' arbennig i ni!

Fe wnaethom gwblhau'r targed o 500 km drwy wneud taith symbolaidd olaf rownd Nant y Moch – nid i gofio am neb y tro hwn – ond i ddathlu llwyddiant brawd-yng-nghyfraith Helena, Dr Paul Morrison, wnaeth dderbyn llawdriniaeth i dynnu tiwmor o'i ymennydd ddeng mlynedd yn ôl bellach. Erbyn hyn, mae o a'i wraig, Brid – chwaer Helena – yn rhedeg practis meddygol yn Dingle, sir Kerry, Iwerddon – tref enedigol y ddwy.

Os hoffech gyfrannu tuag at yr achos, fe fydd y dudalen gyfrannu, <https://tinyurl.com/seiclo> ar agor am ychydig amser eto. Diolch yn fawr iawn i chi.

Siôn Pennant